

## Cyngor Sir Caerfyrddin Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu gweithgareddau'r Cynghorydd a enwir isod am y cyfnod o fis Mai 2017 tan fis Mai 2018 (Blwyddyn y Cyngor). Fe'i darperir er gwybodaeth i etholwyr, ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad yw barn y Cynghorydd ac nid yw'n adlewyrchu barn Cyngor Sir Caerfyrddin o reidrwydd.

<b>Y Cynghorydd: Gary Jones</b>	<b>Adran Etholiadol: Llangennech</b>
---------------------------------	--------------------------------------

<b>Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau</b>
<b><i>Pwyllgorau'r Cyngor:</i></b>
Y Cyngor Llawn
Y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant
<a href="http://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/mqAttendance.aspx?UID=504">http://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/mqAttendance.aspx?UID=504</a>

<b>Adran 2: Gweithgareddau Etholaeth</b>
<p>Dyma fy mlwyddyn gyntaf fel Cynghorydd Sir. Mae wedi bod yn flwyddyn brysur. Rwyf wedi dysgu nifer o bethau, ac rwy'n dal i ddysgu.</p> <p>Yn ogystal â bod yn Gynghorydd, roeddwn yn gweithio i Tata Steel yn Nhrostre, felly nid oedd fy mhresenoldeb yn 100%. Fodd bynnag, fe wnes i ymddeol ym mis Gorffennaf a bellach gallaf neilltuo fy holl amser i faterion y Cyngor. Rwy'n aelod o'r Pwyllgor Craffu Addysg sy'n ddiddorol iawn gan fod addysg yng Nghymru yn wynebu nifer o newidiadau a heriau.</p> <p>Dyma ddadansoddiad cryno o'r prif faterion yn y Ward:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Datblygiad: oherwydd agosrwydd y pentref at yr M4, rydym yn cael llw o geisiadau cynllunio. Rwy'n benderfynol o wrthwynebu pob datblygiad mawr yn y pentref.</li><li>• Gwastraff peryglus: roedd hyn wedi'i glustnodi ar gyfer hen safle R.N. Cafodd hyn ei wrthwynebu ac nid yw wedi cael ei ganiatáu hyd yn hyn.</li><li>• Goryrru: unwaith eto cymerwyd camau lawer i arafu traffig yn y pentref.</li><li>• Lleoedd chwarae: mae'r Cyngor Cymuned bellach wedi mabwysiadu'r holl meysydd chwarae yn y pentref, ac rydym yn gobeithio eu datblygu ymhellach.</li></ul>

<b>Adran 3: Cyrff Llywodraethu Ysgolion</b>
Rwy'n llywodraethwr yn Ysgol Llangennech.

**Adran 4: Gweithgareddau a Materion Eraill**

Rwy'n drysorydd Pwyllgor Neuadd y Bryn.

Rwyf hefyd yn helpu yn Neuadd Gymunedol Llangennech - weithiau y tu ôl i'r bar!

**Llofnodwyd gan y Cynghorydd: Gary Jones**

Dyddiad: **12/09/18**